**Rhif: LC51899**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion:

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ignition eithrio trwydded forol.

25 Mawrth 2025

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 978-1-83715-472-2 ISBN ddigiol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar esemptiadau i'r drwydded forol.

## Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Ceir fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon o ofyn amdanynt.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Tîm Polisi Trwyddedu Morol
Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: AdolygiadauDeddfwriathTrwyddeduMorol@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori:

https://www.llyw.cymru/cynigion-eithrio-trwydded-forol

## Cynnwys


1. Y Cefndir
2. Trosolwg o’r Ymatebion
3. Crynodeb o'r ymatebion
4. Y camau nesaf

**Atodiadau:**

**A: Rhestr o’r Ymatebwyr**

## 1. Y Cefndir

Sefydlwyd y broses trwyddedu morol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009 (“y Ddeddf”) er mwyn i ddatblygu cynaliadwy allu digwydd yn yr ardal forol. Mae’r broses yn rheoleiddio ystod eang o weithgareddau trwyddedadwy yn yr amgylchedd morol. Diffinnir gweithgareddau trwyddedadwy o dan adran 66 o’r Ddeddf[1]. Yn gyffredinol, mae angen trwydded forol ar gyfer y canlynol:

- Dyddodi unrhyw sylwedd neu wrthrych yn y môr, neu ar wely’r môr neu oddi tano
- Adeiladu, newid neu wella unrhyw waith yn y môr neu drosto, neu ar wely’r môr neu oddi tano
- Symud unrhyw sylwedd neu wrthrych o wely’r môr
- Gwneud unrhyw fath o garthu

O dan y Ddeddf, Gweinidogion Cymru yw’r awdurdod trwyddedu yn nyfroedd Cymru (rhanbarth y glannau a’r rhanbarth alltraeth). Rheolir y broses drwyddedu forol ar ran Gweinidogion gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Fel yr awdurdod trwyddedu priodol, mae Gweinidogion Cymru yn cael defnyddio pwerau o dan Ran 4 o’r Ddeddf i gyflwyno gorchymyn i eithrio gweithgareddau penodol rhag yr angen am drwydded forol. Mae'r esemptiadau hyn yn caniatáu i weithgareddau o ddydd i ddydd (er enghraifft, angori llongau) a gweithgareddau risg isel (er enghraifft) barhau heb fod angen trwydded, gan sicrhau eu bod yn gydnaws â chyfraith ryngwladol a domestig.  Mae esemptiadau'n ei gwneud yn bosib hefyd gweithredu mewn argyfwng yn ddi-oed a helpu i leihau baich rheoleiddio gweithgareddau sy'n dod o dan gyfundrefnau cydsynio eraill.

Yn 2011, gan ddefnyddio pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 74 o’r Ddeddf, gwnaed Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 (Gorchymyn Esemptiadau 2011). Drwy ein hymgynghoriad yn 2024, cynigiwyd diweddaru'r gweithgareddau y caniateir eu heithrio rhag yr angen am drwydded forol yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod y broses drwyddedu forol yn gymesur ac yn gwneud y rhestr o weithgareddau sydd wedi'u heithrio'n debycach i'r rheini a gyflwynwyd ledled y DU gan gefnogi trefn gyson o drwyddedu morol, lle bo hynny'n briodol.

Ym mis Hydref 2024 fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad i ofyn am farn am ein cynigion ar gyfer Gorchymyn Esemptiadau newydd. Mae'r canlynol yn grynodeb lefel uchel o'r ymatebion a dderbyniwyd.

## 2. Trosolwg o’r Ymatebion

Daeth yr ymgynghoriad ar yr eithriadau i'r angen am drwyddedau morol i ben ar 14 Ionawr 2025. Daeth cyfanswm o 22 o ymatebion i law. Derbyniwyd 19 o ymatebion cyn y dyddiad cau a derbyniwyd tri ymateb ar ôl y dyddiad cau. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion hwyr ac wedi cynnwys y safbwyntiau a fynegwyd ynddynt yn y crynodeb o'r ymatebion.

[1] Marine and Coastal Access Act 2009 (legislation.gov.uk)

O'r 22 ymateb a ddaeth i law, darparwyd 11 drwy'r arolwg ar-lein a daeth 11 i law trwy e-bost. Dywedodd 13 o ymatebwyr eu bod am fod yn ddienw. Ceir rhestr o'r ymatebwyr, heblaw am y rheini oedd am aros yn ddienw, ar ddiwedd y ddogfen hon.

Nod y ddogfen hon yw cyflwyno'r safbwyntiau bras a ddarparwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn hytrach nag adlewyrchu ymateb pob unigolyn.

## 3. Crynodeb o'r ymatebion

Mae'r adran ganlynol yn nodi safbwyntiau a sylwadau bras a gafwyd mewn perthynas â chwestiynau'r ymgynghoriad. O'r atebion a ddaeth i law dros e-bost, roedd pedwar yn ymatebion cyffredinol heb roi atebion ar wahân i gwestiynau unigol. Lle medrwyd, rydym wedi nodi'r cwestiwn y mae pob elfen o'u hymateb yn ei ateb neu wedi cynnwys sylwadau o dan Gwestiwn 8 isod.

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r esemptiadau arfaethedig, gan gynnwys unrhyw amodau cysylltiedig? Os na, eglurwch pam yr ydych yn anghytuno ag esemptiad arfaethedig.**

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r esemptiadau a gynigir neu â'r rheini a oedd fwyaf o ddiddordeb iddynt. Nododd rhai ymatebwyr y byddai'r cynigion yn gwneud y drefn ar gyfer y gweithgareddau dan sylw'n debycach i'r arfer da ledled y DU, gan alluogi proses drwyddedu morol gymesur a fyddai'n rhoi mwy o sylw ar wneud y broses o ddelio â gweithgareddau risg uwch yn fwy effeithiol.

Nodwyd y byddai'r esemptiadau a gynigir ar gyfer cychod hamdden yn arwain at fanteision mwy cyffredinol ac yn cael effaith gadarnhaol ar y sector, gan wella profiad pobl o fynd ar y dŵr a helpu i fynd i'r afael â phryderon llygredd.

Mynegwyd pryderon ynghylch tyfu neu gynaeafu pysgod cregyn, yn benodol o ran hela cocos heb reoleiddio, a sicrhau nad oedd yr esemptiad yn ymdrin â thyfu rhywogaethau estron goresgynnol. Dywedodd un ymatebydd y dylid rheoleiddio pob gweithgarwch masnachol yn yr amgylchedd morol. Mynegodd un ymatebydd ei bryder ynghylch geiriad yr esemptiad ac awgrymodd y dylid ei ail-ddrafftio neu ei dynnu oddi ar y rhestr o weithgareddau wedi'u heithrio.

Dywedodd dau ymatebydd bod angen arweiniad ar sut mae effeithiau arwyddocaol ar ardaloedd morol gwarchodedig yn cael eu hasesu. Mae'r sylw hwn yn berthnasol i bob esemptiad sy'n cynnwys amod i sicrhau nad yw gweithgareddau arfaethedig yn effeithio'n arwyddocaol ar ardaloedd morol gwarchodedig.

Dywedodd un ymatebydd bod angen diffiniad clir o beth yw gwaith cynnal a chadw ac arweiniad ynghylch pa waith sydd wedi'i gynnwys yn yr esemptiad a pha waith sydd ddim.

Mynegodd un ymatebydd ei bryderon ynghylch y cynnig i eithrio adeiladu amddiffynfeydd newydd rhag llifogydd arfordirol gan y byddai hynny'n amhriodol meddai gan nad yw gwaith newydd ar amddiffyn yr arfordir yn weithgaredd o ddydd i ddydd nac yn risg isel. Dywedodd hefyd nad yw'n briodol eithrio gweithgareddau efallai y bydd angen asesu eu heffaith amgylcheddol ac fel y'i drafftiwyd, bydd angen

angen cydsyniad dwy drefn gydsynio wahanol ar gyfer gwaith sydd uwchlaw ac islaw pwynt y llanw isel.

Cododd un ymatebydd bryderon ynghylch yr esemptiadau canlynol, gan ddweud bod angen newid y testun neu eglurhad:

- Gweithrediadau pysgota
- Dyddodi sylweddau trin cemegau ac olew morol ac ati.
- Dyddodi offer i reoli, dal neu adennill olew.
- Dyddodion wrth garthu am agregau neu fwynau
- Lansio llongau.
- Cynnal a chadw gweithiau amddiffyn yr arfordir, draenio ac amddiffyn rhag llifogydd.
- Gweithgareddau gwylwyr y glannau – dibenion diogelwch a hyfforddiant
- Lledaenu a magu pysgod cregyn.
- Mân waith arferol i gynnal pontydd presennol ac adeileddau cantilifrog, gan gynnwys cynnal a chadw glanfeydd a phierau.
- Arddangosfeydd tân gwyllt.
- Samplau cydio gwely'r môr ar gyfer profi neu ddadansoddi.
- Deifwyr yn cael gwared ar sbwriel.
- Dyddodion damweiniol – gweithgaredd symud.
- Carthu cynnal a chadw at ddibenion mordwyo
- Marcwyr dros dro.
- Defnyddio cerbydau neu longau i gael gwared ar sbwriel a malurion morol.
- Adfer morwellt.
- Cyfleusterau doc sych.
- Cael gwared ar dywod a chwythwyd gan y gwynt.
- Pontynau.

**Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno y dylem ymestyn yr esemptiad yn Nhabl 2 uchod sy'n eithrio cynnal a chadw amddiffynfeydd yr arfordir ac amddiffynfeydd rhag llifogydd i fod yn berthnasol hefyd i bob Awdurdod Rheoli Perygl Llifogydd?**

*Mae'n bosibl y bydd y diwygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd gael caniatâd i wneud gwaith o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016, lle mae'n bosibl na fydd angen caniatâd ar gyfer rhai gweithgareddau ar hyn o bryd os gwnaed cais am drwydded forol. A ydych yn rhagweld unrhyw ganlyniadau arwyddocaol i Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd o ganlyniad i'r newid hwn, gan gynnwys unrhyw oblygiadau cost sylweddol? Os felly, esboniwch beth yw'r canlyniadau.*

Roedd yr ymatebwyr oedd â diddordeb yn yr esemptiad penodol hwn o blaid estyn yr esemptiad i fod yn berthnasol i bob Awdurdod Rheoli Perygl Llifogydd, gydag un ymatebydd hefyd yn nodi bod angen negeseuon clir i sicrhau bod Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd yn glir nad yw'r esemptiad rhag trwyddedu morol yn golygu nad oes angen iddynt wneud cais am bob caniatâd arall y gallai fod ei angen ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig, gan gynnwys Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Gofynnodd dau ymatebydd am gael estyn yr esemptiad i sefydliadau eraill nad ydynt yn Awdurdod Rheoli Perygl Llifogydd ond sydd â chyfrifoldebau tebyg o ran diogelu asedau cyhoeddus.

Nododd un ymatebydd bod angen cynnwys amod yn yr esemptiad i sicrhau nad yw gweithgareddau'n peryglu'r amgylchedd hanesyddol.

**Cwestiwn 3: A oes unrhyw weithgareddau eraill nad ydym wedi'u cynnwys yn y tablau y teimlwch y dylid eu heithrio? Wrth ystyried y cwestiwn hwn, a fyddech cystal â chynnwys unrhyw dystiolaeth bod y gweithgaredd yn un risg isel, eisoes wedi'i reoleiddio'n well, neu y byddai ei angen i ddelio â sefyllfa o argyfwng.**

Awgrymodd y rheini a atebodd y cwestiwn hwn y dylid ystyried eithrio'r gweithgareddau canlynol:

- mathau eraill o waith adfer morol e.e. adfer gwelyau wystrys a choedwigoedd gludwymon.
- tyllau treialu a thurio, gydag amodau priodol.
- Mannau glanhau gwaelodion cychod yn y dŵr.
- Samplau Vibrocore, sy'n golygu gostwng ffrâm i wely'r môr o long a dirgrynnu tiwb o ryw 100mm o ddiamedr i wely'r môr at ddyfnder o 3-4m. Mae pob sampl yn cymryd tua 30 munud. Mae'r gweithgaredd hwn yn bwysig wrth ymchwilio i safle a hefyd ar gyfer monitro cydymffurfiaeth.

Er nad yw'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn, dywedodd un ymatebydd, pe bai Corff Cyhoeddus yn gofyn am drwydded, byddai'n briodol eithrio'r ffi am y drwydded honno.

Lle cafwyd atebion i'r cwestiwn hwn, roedd yr atebwyr yn awyddus ar y cyfan i Lywodraeth Cymru ystyried alinio gweithgareddau ag esemptiadau trwyddedau morol y DU, i'r graddau pellaf posibl, a lle bo hynny'n briodol. Y rheswm a roddwyd oedd y byddai hyn yn lleihau'r baich a'r dryswch posibl i ymgeiswyr sy'n gweithio ar draws gwledydd.

**Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y dylid symud twneli turiedig fel gweithgaredd esempt?**

Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw sylw ar y cynnig i dynnu tyllau turio o'r rhestr gyfredol o weithgareddau sydd wedi'u heithrio. Fodd bynnag, roedd rhai yn cytuno y dylid tynnu'r gweithgaredd hwn o'r rhestr. Roedd yr ymatebwyr oedd â diddordeb mewn tyllau turio yn awgrymu geiriad amgen i'r esemptiad presennol, gan awgrymu y gellid cadw'r esemptiad ond gydag esboniad cliriach ar sut y byddai'n gweithio.

Dywedodd un atebydd y dylid rheoleiddio pob math o waith turio twnel.

**Cwestiwn 5: Os ydych yn bwriadu cyflawni gweithgaredd newydd esempt, a oes gennych unrhyw dystiolaeth o'r arbedion cost y byddwch yn eu gwneud**

**os na fydd angen mwyach i wneud cais am drwydded forol? Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol.**

Cawsom ffigurau gan ddau ymatebydd, yn nodi'r arbedion tebygol o ran cost a geid o beidio â gwneud cais am drwydded forol. Dywedodd dau ymatebydd y byddai'r arbedion cost yn sylweddol ond na fyddai'n hawdd eu mesur.

Er nad yw'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn, dywedodd dau ymatebydd fod cost gyfredol trwydded forol yng Nghymru yn bryder.

Cafwyd sylw gan un ymatebydd ar yr Asesiad Effaith Economaidd drafft a gyhoeddwyd gyda'r ymgynghoriad ar esemptiadau'r trwyddedau morol. Dywedodd yr ymatebydd y dylai'r cynigion terfynol fod yn seiliedig ar y fethodoleg arfarnu a gwerthuso a ddisgrifir yn Llyfr Gwyrdd y Trysorlys i ddangos gwerth am arian cyhoeddus.

**Cwestiwn 6: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol gorchymyn gweithgareddau esempt fel y'i cynigir yn yr ymgynghoriad hwn ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

- **Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau positif?**
- **Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?**

Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn, neu fe wnaethant nodi nad oedd ganddynt unrhyw sylw. Cafwyd un ymateb cadarnhaol a ddywedodd y byddai'r esemptiadau'n cael effaith gadarnhaol a dywedodd un ymatebydd nad oedd deddfwriaeth sy'n gofyn am ystyried effeithiau ar ardaloedd morol gwarchodedig ar gael yn Gymraeg felly gallai gael effaith negyddol.

**Cwestiwn 7: Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid gorchymyn gweithgareddau esempt er mwyn:**

- **cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn, neu fe wnaethant nodi nad oedd ganddynt unrhyw sylw. Nododd un ymatebydd fod cyhoeddi'r ddeddfwriaeth [esemptiadau] yn y Gymraeg a'r Saesneg yn beth cadarnhaol.

**Cwestiwn 8: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech wneud sylwadau ar faterion eraill nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt uchod, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt:**

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt unrhyw sylw ychwanegol i'r sylwadau a ddarparwyd ar gyfer cwestiwn 1. Ailadroddodd pum ymatebydd eu cefnogaeth i drefn gyson ar draws y DU yn enwedig o ystyried bod prosiectau'n gallu gweithio ar draws ffiniau ac i helpu rhanddeiliaid i gydymffurfio.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid ystyried cyflwyno trwyddedau hunanwasanaeth ar gyfer gweithgareddau risg is, fel sydd wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus yn Lloegr.

Nododd tri o'r ymatebwyr bod angen arweiniad ac 'arwyddbyst' i ymgeiswyr mewn cysylltiad â'r caniatadau eraill y gallai fod eu hangen ar gyfer eu gweithgareddau, gan gynnwys caniatâd sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Gofynnodd un ymatebydd hefyd y dylid ystyried cyflwr gan sicrhau nad yw gweithgareddau eithriedig yn effeithio ar feysydd sydd o ddiddordeb ar gyfer gweithgareddau amddiffyn.

Esboniodd un ymatebydd ei bryderon ynghylch amodau sy'n sicrhau nad yw gweithgareddau'n rhwystro neu'n peryglu mordwyo, gan ofyn a ellid ystyried lliniaru risgiau i ddiogelwch mordwyo fel rhan o weithgaredd eithriedig er mwyn i esemptiadau allu bod yn gymwys. Awgrymodd yr ymatebydd hefyd fod gwahanol reoleiddwyr a sefydliadau yn dehongli esemptiadau'n wahanol.

Er nad yw'n berthnasol i'r ymgynghoriad ar esemptiadau, cyfeiriodd un ymatebydd at yr angen i atal difrod pellach i fywyd y môr a llawr y môr oherwydd effeithiau adeiladu tyrbinau gwynt.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch amod yn yr esemptiad ar gyfer morwellt sy'n ceisio sicrhau nad yw gweithgareddau'n cael effaith arwyddocaol ar ardaloedd morol gwarchodedig, gan nodi bod perygl i'r amod hwn danseilio bwriad yr esemptiad sef lleihau baich rheoleiddiol y rhai sydd am gynnal gwaith adfer morwellt.

Dywedodd un ymatebydd, er mwyn atal difrod i ardaloedd morol gwarchodedig, bod angen i awdurdod cymwys neu gorff cadwraeth natur priodol gadarnhau na all y gweithgaredd gael effaith arwyddocaol ar ardal warchodedig forol. Nid oedd yn credu ei bod yn briodol i ddefnyddwyr [esemptiadau] 'fodloni eu hunain' na fydd gweithgaredd yn debygol o gael effaith arwyddocaol.

## 4. Y Camau Nesaf

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Rydym yn ystyried pob ymateb. Bydd y cynigion terfynol yn cael eu hystyried gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd. Os cytunir ar y cynigion, bydd Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) 2025 yn cael ei gyflwyno.

Wrth i’n moroedd ddod yn brysurach ac wrth i’n dealltwriaeth a’n gwybodaeth am yr effeithiau posibl ar yr amgylchedd, iechyd pobl a defnyddwyr eraill y môr a’r ffordd orau o’u rheoli gynyddu, mae angen adolygu’r rhestr o weithgareddau esempt o bryd i’w gilydd. Bydd gwneud hynny yn helpu i sicrhau bod y broses trwyddedu morol yn parhau i fod yn effeithlon ac yn gymesur a hefyd ei bod dal yn briodol eithrio gweithgareddau rhag y broses trwyddedu forol. Bydd unrhyw orchymyn Gweithgareddau Esempt newydd a gyflwynir yn destun adolygiadau cyfnodol.

**Atodiad A  Rhestr o'r Ymatebwyr**

Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Gogledd Iwerddon)

Associated British Ports

Asiantaeth Gwylwyr y Glannau

Car-y-Môr

CNC

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain

Cymdeithas Porthladdoedd Prydain

Mr W Jones

Ms C Richardson

Ms R Hope

Network Rail

Royal Yachting Association

Trinity House

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

WWF

Ystâd y Goron